**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

John Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llawr 5
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Hydref 2012

Annwyl Weinidog,

**CLA178 - Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012**

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr Offeryn Statudol uchod yn ystod ei gyfarfod ar 8 Hydref 2012 a chytunodd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor a wnaed o dan Reol Sefydlog 21.3 ar rinweddau'r Offeryn.

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Offeryn hwn ar y sail ei fod yn gweithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd mewn modd amhriodol. [Rheol Sefydlog 21.3(iv).] Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2012 ac mae'n amgaeedig er gwybodaeth. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r Rheoliadau wneud cyfeiriad penodol at y gofynion sydd ynghlwm â pharthau gwyliadwraeth fel y nodir yn y Gyfarwyddeb. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb i'r Pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad at y Prif Weinidog er gwybodaeth ac rwyf hefyd wedi trefnu i'r llythyr hwn gael ei ddwyn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh